COVID-19 Update: 1st May

In today's COVID-19 update: waste collections to go ahead as normal on VE Day Bank Holiday next Friday; the Council's response to COVID-19 in numbers; former gas works site acquired for housing; Planning to start being reintroduced from Monday; road improvements to begin on Western Avenue next week; a great 'Diff Diaries response; work has started on improving sport facilities at Sanatorium Park; and a public plea from Cardiff and Vale UHB.

Early May Bank Holiday

This year's early May bank holiday will fall on Friday 8th May to coincide with the 75th anniversary of VE Day.

There will be no change to your waste and recycling collection date on this day.

COVID-19 Infographic: Cardiff Council response in numbers

Over the course of the COVID-19 crisis, we have been producing a series of infographics, capturing Cardiff Council's response in numbers.

Here is the latest of these infographics.

It captures everything from the amount of PPE delivered, to the thousands of hours provided in domiciliary care each week; the hundreds of food parcels delivered, to the tens of thousands donated to our food appeal; the millions distributed in business support; the army of volunteers that have come forward to help; the thousands of child care hours provided every week in our schools; the thousands of tonnes of waste collected.

In Numbers: Cardiff Council Responding To The Covid-19 Crisis

18,750
HOURS OF CHILDCARE A WEEK IN OUR SCHOOL HUBS

1,100
VOLUNTEERS REGISTERED ON TOGETHER FOR CARDIFF

£98,000
PLEDGED TO OUR CARDIFF FOOD APPEAL

7.5k CALLS
TO THE COUNCIL ADVICE LINE (029 2087 1071)

1,000
PROACTIVE COMMUNICATIONS SENT

6,000
SOCIAL MEDIA REPLIES SENT

31K HOURS
OF DOMICILIARY CARE PROVIDED EACH WEEK

1.6M
ITEMS OF PPE DELIVERED

3,000
FOOD PARCELS DELIVERED

£55M
DISTRIBUTED IN BUSINESS GRANTS

1,750,000
WORDS TRANSLATED INTO WELSH

229,000
VISITS TO THE COVID-19 WEBPAGE

10,000
TONNES OF WASTE COLLECTED

4,000
BUSINESS GRANT APPLICATIONS PROCESSED

Figures from 14th March 2020 to 30th April 2020

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

Council acquires former gas works site at Grangetown

Cardiff Council has acquired the 29 acre former gas works site in Grangetown, Cardiff.

Property consultancy Knight Frank assisted with the acquisition of the Ferry Road site on behalf of the Council from vendors National Grid and Wales and West Utilities.

The Council intends to deliver a Council-led mixed tenure development of up to 500 new homes on the site as part of its target of delivering 2,000 new homes in Cardiff, 1,000 of which will be completed by 2022.

You can read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23757.html

Planning to start being reintroduced from Monday

Cardiff Council's Planning department will be re-opening their services through a phased plan which begins on Monday May 4th.

The first phase will ensure that the planning department is able to progress planning applications that have already been submitted, as well as the following functions:

- Validate & register Discharge of Conditions (pre-commencement & standard conditions) & Reserved Matters applications
- Consult upon, assess and issue officer/Chair decisions on pre-commencement & standard conditions & Reserved Matters applications
- Issue officer/chair decisions on all types of applications which have a consultation deadline before April 10th
- Assess and issue decisions on Certificates of Lawful Development
- Assess and issue decisions relating to requests for works on Protected Trees
- Continue to process Pre-Application requests
- Continue to advise applicants and agents if information they have submitted meets our validation requirements
- Continue to consider 'Prior Approval' applications which require a response within 56 days (otherwise consent is deemed)

All planning applications which require a planning committee decision **will not** be determined through delegations and work is ongoing regarding how planning committees will operate in the near future.

All other planning services, including re-opening the service to new applications, will form part of the second phase of re-opening services. Arrangements will be kept under review and further information will be released to the public as required.

Improving pedestrian safety on Western Avenue

A road safety improvement scheme on Western Avenue (A48) which was suspended due to the lockdown for COVID-19 will resume on Monday May 4th with all staff complying with the new social distancing requirements.

A new toucan crossing will be installed on Western Avenue, which will be supported by a new 20 MPH speed limit. The new scheme will significantly improve safety for pedestrians in the area.

The contractor, Alun Griffiths (Contractors) Ltd has been working hard behind the scenes to ensure all their staff are able to comply with all legislation on social distancing requirements.

To ensure that this work can progress safely and in line with current legislation, a 24/7 lane closure will be put in place on Western Avenue from the junction with Ely Road to Waungron Road heading eastbound towards Cardiff Road in both directions.

These lane closures will be in place for up to six weeks and a solid hoarding will be installed on the road to protect the workforce as they carry out their work.

This is the first scheme to re-start after the COVID-19 lockdown. All works on the highway will only resume if the contractors can show that they are able to work safely in line with government requirements.

Great response to the first week of the 'Diff Diaries project

It has been a great start to the 'Diff Diaries project, with fantastic submissions from Cardiff's children and young people coming though on the website.

A video has been put together which combines the diary entries sent in so far, and you and click to watch that here:
https://youtu.be/_RsEXLZ2FQU

'The 'Diff Diaries' is providing children and young people the opportunity to document their activity, thoughts and feelings during the global pandemic by submitting video recordings, photo collages or written diary entries.

With schools closed, all events large and small across the globe cancelled and children and young people everywhere having to stay at home, entries may show how children and young people are spending their time, perhaps learning new skills, being home-schooled or even sharing tips for children of the future.

Supported by Museum of Cardiff, Screen Alliance Wales and University of South Wales, the project has been launched by Cardiff Commitment and supports Cardiff's ambition to become a United Nations Child Friendly City.

The project is open to 7-16 year olds, Entries can be in both Welsh and English medium and must be uploaded via the Hwb Platform:
https://sites.google.com/hwbcymru.net/the-covid-19-diff-diaries/home

Work to improve sports facilities at Sanatorium Park

Improvement works currently being carried out to Sanatorium Park are to reinstate the markings of two existing sports pitches; one football pitch, one rugby pitch with some fencing, spectator barriers and team dug outs added to the football pitch.

This is to provide sports facilities for both community users and pupils whilst the new Fitzalan High School development is completed. It will also deliver enhanced legacy amenities which will be available for use by the local community following the works, for future generations to enjoy. There will also be six more trees on the site than there are currently, when the work is completed.

The works will be completed by June 2020 and will not affect public access to the park.

Reinstating sports pitches is permitted development and does not require planning permission.

Planning permission for the enabling works associated with the new Fitzalan High School was granted on March 18, 2020.

A public plea from Cardiff and Vale UHB

The Cardiff and Vale University Health Board is making the following plea to members of the public: please do not delay seeking urgent medical treatment.

It is completely understandable, that during the COVID-19 pandemic, many are trying their utmost to adhere to social distancing, staying home to protect the NHS. It is also understandable that the prospect of going to a hospital may now be daunting for at-risk groups of people.

However, by delaying seeking urgent medical treatment for conditions such as heart attack or stroke, they are arguably putting their health at an even greater risk.

Seeking medical attention is one of the reasons that people can safely leave their homes, and Cardiff and Vale UHB has put robust structures and processes in place to manage COVID-19 and non-COVID-19 emergency patients in order to minimise the risk of cross-infection.

Therefore, if anyone has symptoms of a stroke, chest pains which they suspect may be a heart attack, sustains an injury which needs treatment, has a sick child who needs urgent medical attention, or if you are pregnant and need medical attention, Cardiff and Vale UHB are still there to help.

Also, GP practices are still open, although there may be different ways for people to access them. Members of the public are urged to continue using their GPs if they medical attention, but they must call them before going to the surgery.

Diweddariad COVID-19: 1 Mai

Yn y diweddariad COVID-19 heddiw: casgliadau gwastraff i fynd yn eu blaen yn ôl yr arfer ar ŵyl banc Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop ddydd Gwener nesaf; ymateb y Cyngor i COVID-19 mewn ffigurau; hen safle gwaith nwy wedi'i gaffael ar gyfer tai; Cynllunio i ddechrau cael ei ailgyflwyno o ddydd Llun; gwelliannau ffyrdd i ddechrau ar Rodfa'r Gorllewin yr wythnos nesaf; ymateb gwych i 'Dyddiaduron Diff'; gwaith wedi dechrau ar wella cyfleusterau chwaraeon ym Mharc Sanatorium; a phle cyhoeddus gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Gwyliau Banc Dechrau Mai

Bydd gŵyl y banc gynnar ddechrau Mai eleni ar ddydd Gwener 8 Mai i gyd-fynd â 75 mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop.

Ni fydd newid i'ch casgliad gwastraff ac ailgylchu ar y diwrnod hwn.

Ffeithlun COVID-19: Ymateb Cyngor Caerdydd mewn rhifau

Dros gyfnod argyfwng COVID-19, rydym wedi bod yn cynhyrchu cyfres o ffeithluniau, gan nodi ymateb Cyngor Caerdydd mewn rhifau.

Dyma'r diweddaraf o'r ffeithluniau hyn.

Mae'n casglu popeth o niferoedd Cyfarpar Diogelu Personol a gyflenwir, i'r miloedd o oriau a ddarperir mewn gofal cartref bob wythnos; y cannoedd o barseli bwyd a ddarparwyd, i'r degau o filoedd a roddwyd i'n hapêl am fwyd; y miliynau a ddosbarthwyd mewn cymorth busnes; y fyddin o wirfoddolwyr sydd wedi dod ymlaen i helpu; y miloedd o oriau gofal plant a ddarperir bob wythnos yn ein hysgolion; y miloedd o dunelli o wastraff a gasglwyd.

Mae'r rhestr yn mynd ymlaen, ond gallwch weld yr holl rifau ar eich cyfer chi eich hun:

Y niferoedd: Ymateb Cyngor Caerdydd i argyfwng COVID-19

18,750
AWR O OFAL PLANT BOB WYTHNOS YN EIN CANOLFANNAU YSGOL

1.6
OFFER DIOGELWCH PERSONOL A DDANFONWYD

1,100
O WIRFODDOLWYR WEDI COFRESTRU AR GYDA'N GILYDD DROS GAERDYDD

3,000
O BARSELI BWYD WEDI EU DOSBARTHU

£98,000
WEDI EI ADDO I'N HAPÊL FWYD CAERDYDD

£55M
WEDI'I DDOSBARTHU MEWN GRANTIAU BUSNES

7.5k CALLS
O ALWADAU I LINELL GYNGHORI'R CYNGOR (029 2087 1071)

1,750,000
O EIRIAU WEDI EU CYFIEITHU I'R GYMRAEG

1,000
GYFATHREBIADAU RHAGWEITHIOL WEDI'U HANFON

229,000
O YMWELIADAU Â THUDALEN GWE COVID-19

6,000
O ATEBION WEDI'U HANFON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

10,000
TUNNELL O WASTRAFF WEDI'I GASGLU

31K HOURS
O ORIAU GOFAL CARTREF WEDI'U DARPARU BOB WYTHNOS

4,000
O GEISIADAU GRANT BUSNES WEDI EU PROSESU

Casglwyd y ffigurau ar 14 Mawrth - 16 Ebrill 2020

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

Cyngor Caerdydd yn caffael safle gwaith nwy blaenorol yn Grangetown

Mae Cyngor Caerdydd wedi caffael y safle gwaith nwy blaenorol 29 erw yng Nghaerdydd.

Cynorthwyodd yr ymgynghoriaeth eiddo Knight Frank gyda chaffael y safle ar Ferry Road ar ran Cyngor Caerdydd o'r gwerthwyr y Grid Cenedlaethol a Wales and West Utilities.

Mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno datblygiad deiliadaeth gymysg a arweinir gan y Cyngor o hyd at 500 o gartrefi ar y safle fel rhan o'i darged o ddarparu 2,000 o gartrefi newydd yng Nghaerdydd, a bydd 1,000 ohonynt yn cael eu cwblhau erbyn 2022.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23758.html

Y diweddaraf am gynllunio cyhoeddus

Bydd adran gynllunio Cyngor Caerdydd yn ail-agor eu gwasanaethau drwy gynllun graddol yn dechrau ar ddydd Llun 4 Mai.

Bydd y cam cyntaf yn sicrhau bod yr adran gynllunio yn gallu bwrw ymlaen â cheisiadau cynllunio sydd eisoes wedi'u cyflwyno, yn ogystal â'r swyddogaethau canlynol:

- Dilysu a chofrestru Cyflawni Amodau (cyn cychwyn ac amodau safonol) a cheisiadau Materion a Gadwyd yn Ôl
- Ymgynghori ar, asesu a chyhoeddi penderfyniadau swyddogion/Cadeirydd ar amodau cyn cychwyn a safonol a cheisiadau Materion a Gadwyd yn Ôl
- Cyhoeddi penderfyniadau'r swyddog/cadeirydd ar bob math o geisiadau sydd â therfyn amser ymgynghori cyn 10 Ebrill
- Asesu a chyhoeddi penderfyniadau ar Dystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon
- Asesu a chyhoeddi penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau i weithio ar Goed a Ddiogelir
- Parhau i brosesu ceisiadau cyn-ymgeisio
- Parhau i gynghori ymgeiswyr/asiantau ynghylch a yw gwybodaeth a gyflwynwyd ganddynt yn ateb gofynion dilysu
- Parhau i ystyried ceisiadau 'Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw' sydd angen ymateb o fewn 56 diwrnod (tybir fel arall bod cydsyniad wedi ei roi)

Ni fydd ceisiadau sy'n gofyn am benderfyniad gan y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu penderfynu drwy ddirprwyaethau ac mae gwaith yn mynd rhagddo o ran sut y bydd pwyllgorau cynllunio yn gweithredu yn y dyfodol agos.

Bydd yr holl wasanaethau cynllunio eraill, gan gynnwys ail-agor y gwasanaeth i geisiadau newydd, yn ffurfio rhan o'r ail gam o ail-agor gwasanaethau. Bydd y trefniadau'n cael eu hadolygu a bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rhyddhau i'r cyhoedd yn ôl y gofyn.

Gwella diogelwch i gerddwyr ar Rodfa'r Gorllewin

Bydd cynllun gwella diogelwch ar y ffyrdd ar Rodfa'r Gorllewin (yr A48) a gafodd ei atal oherwydd y cyfyngiadau symud COVID-19 yn ailddechrau ddydd Llun 4 Mai gyda'r holl staff yn cydymffurfio â'r gofynion ymbellhau cymdeithasol newydd.

Bydd croesfan twcan newydd yn cael ei osod ar Rodfa'r Gorllewin, a fydd yn cael ei chefnogi gan derfyn cyflymder newydd o 20 MYA. Bydd y cynllun newydd yn gwella diogelwch yn sylweddol i gerddwyr yn yr ardal.

Mae'r contractwr, Alun Griffiths (Contractors) Ltd wedi bod yn gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni i sicrhau bod eu holl staff yn gallu cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth ar ofynion ymbellhau cymdeithasol.

Er mwyn sicrhau y gall y gwaith hwn fynd rhagddo'n ddiogel ac yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, caiff gorchymyn cau lonydd 24/7 ei roi ar waith ar Rodfa'r Gorllewin o'r gyffordd â Heol Trelái i Waungron Road, sy'n mynd tua'r dwyrain tuag at Ffordd Caerdydd i'r ddau gyfeiriad.

Bydd y gorchymyn cau lonydd hwn ar waith am hyd at chwe wythnos a bydd byrddau cadarn yn cael eu gosod ar y ffordd er mwyn diogelu'r gweithlu wrth iddynt wneud eu gwaith.

Dyma'r cynllun cyntaf i ail-ddechrau ar ôl cyfyngiadau symud COVID-19. Bydd y gwaith ar y briffordd ond yn ailddechrau os gall y contractwyr ddangos eu bod yn gallu gweithio'n ddiogel yn unol â gofynion y Llywodraeth.

Ymateb gwych i wythnos gyntaf project Dyddiaduron Caerdydd

Mae wedi bod yn ddechrau gwych i'r project Dyddiaduron Caerdydd, gyda chyflwyniadau gwych gan blant a phobl ifanc Caerdydd yn dod ar y wefan.

Mae fideo wedi'i greu sy'n cyfuno cofnodion y dyddiadur a anfonwyd i mewn hyd yn hyn, a chi a chliciwch i wylio hynny yma:
https://youtu.be/_RsEXLZ2FQU

Mae Dyddiaduron y 'Diff' yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc gofnodi eu gweithgareddau, meddyliau a theimladau yn ystod y pandemig byd-eang drwy gyflwyno cofnod fideo, collage lluniau neu straeon dyddiadur ysgrifenedig.

Gyda'r ysgolion ar gau, a'r holl ddigwyddiadau mawr a bach wedi eu canslo a phlant a phobl ifanc ymhobman yn gorfod aros gartref, gall y dyddiaduron ddangos sut mae plant a phobl ifanc yn treulio eu hamser, yn dysgu sgiliau newydd efallai, cael eu haddysgu gartref neu hyd yn oed rhannu syniadau â phlant y dyfodol.

Wedi'i gefnogi gan Amgueddfa Caerdydd, Screen Alliance Wales a Phrifysgol De Cymru, cafodd y project ei lansio gan Ymrwymiad Caerdydd ac mae'n cefnogi uchelgais Caerdydd i fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r project ar gael i bobl 7-16 oed, gallwch gyflwyno dyddiaduron yn Gymraeg a Saesneg ac mae'n rhaid eu lanlwytho drwy'r platfform Hwb: https://sites.google.com/hwbcymru.net/the-covid-19-diff-diaries/home

Gwaith i wella cyfleusterau chwaraeon ym Mharc Sanatorium

Mae'r gwaith gwella sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ym Mharc Sanatorium yn adfer marciau dau faes chwaraeon presennol; un cae pêl-droed, un cae rygbi gyda rhywfaint o ffensys, rhwystrau i wylwyr ac mae llochesi tîm wedi'i ychwanegu at y cae pêl-droed.

Mae hyn er mwyn darparu cyfleusterau chwaraeon ar gyfer defnyddwyr a disgyblion yn y gymuned tra bod datblygiad ysgol uwchradd newydd Fitzalan yn cael ei gwblhau. Bydd hefyd yn darparu amwynderau etifeddol gwell a fydd ar gael i'w defnyddio gan y gymuned leol yn dilyn y gwaith, er mwyn i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau. Bydd hefyd chwech yn fwy o goed ar y safle nag sydd yna ar hyn o bryd, pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau.

Bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn Mehefin 2020 ac ni fydd yn effeithio ar fynediad y cyhoedd i'r parc.

Mae adfer lleiniau chwaraeon yn ddatblygiad a ganiateir ac nid oes angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith galluogi a oedd yn gysylltiedig ag ysgol uwchradd newydd Fitzalan ar 18 Mawrth, 2020.

Apêl cyhoeddus gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gwneud yr apêl canlynol i aelodau o'r cyhoedd: Peidiwch ag oedi cyn ceisio triniaeth feddygol frys.

Mae'n gwbl ddealladwy, yn ystod pandemig COVID-19, fod llawer yn ceisio eu gorau glas i lynu wrth ganllawiau pellhau cymdeithasol, aros gartref i amddiffyn y GIG. Mae hefyd yn ddealladwy y gall y posibilrwydd o orfod mynd i ysbyty fod yn frawychus i grwpiau o bobl sydd mewn perygl.

Fodd bynnag, drwy oedi cyn ceisio triniaeth feddygol frys ar gyfer cyflyrau fel trawiad ar y galon neu strôc, gellid dadlau eu bod yn peryglu eu hiechyd hyd yn oed yn fwy.

Mae ceisio sylw meddygol yn un o'r rhesymau pam y gall pobl adael eu cartrefi yn ddiogel, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi rhoi strwythurau a phrosesau cadarn ar waith i reoli cleifion brys a chleifion brys COVID-19 er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Felly, os bydd gan unrhyw un symptomau o strôc, poenau yn y frest y maent yn amau a allai fod yn drawiad ar y galon, yn cael anaf sydd angen triniaeth, â phlentyn sâl sydd angen sylw meddygol brys, neu os ydych yn feichiog ac angen sylw meddygol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yno o hyd i’ch helpu.

Hefyd, mae meddygfeydd lleol yn dal ar agor, er y gall fod dulliau gwahanol i bobl eu defnyddio. Anogir aelodau o'r cyhoedd i barhau i ddefnyddio eu meddygon teulu os oes angen sylw meddygol arnynt, ond rhaid iddynt ffonio yn gyntaf cyn mynd i'r feddygfa.